# SL(5)796 – Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2021

## Cefndir a Diben

Mae Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2021 ("y Gorchymyn") yn diwygio Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("Gorchymyn 2007"). Nid yw'r diwygiadau a wneir gan y Gorchymyn yn gymwys ond at ddibenion etholiad cyffredinol arferol y Senedd sydd i fod i ddigwydd yn 2021.

Mae Gorchymyn 2007 yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau i Senedd Cymru. Gwnaeth Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 ("y Ddeddf") addasiadau i Orchymyn 2007 i ymateb i'r risgiau posibl i'r etholiad cyffredinol arferol i fod yn aelod o Senedd Cymru sy'n deillio o bandemig y coronafeirws. Dim ond ar gyfer etholiad cyffredinol arferol 2021 y mae'r darpariaethau yn y Ddeddf yn gymwys.

<u>Amser cau ar gyfer derbyn enwebiadau ar gyfer etholiad Senedd 2021</u>
At ddibenion etholiad Senedd 2021, estynnodd Adran 14(5)(a) o Ddeddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 yr amser ar gyfer cyflwyno papurau enwebu o rhwng 10am a 4pm bob dydd y gellir cyflwyno enwebiadau, i 9am i 5pm. Y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno enwebiadau yw'r pedwerydd diwrnod ar bymtheg cyn diwrnod yr etholiad. Y pedwerydd diwrnod ar bymtheg cyn yr etholiad yw'r diwrnod olaf hefyd ar gyfer tynnu enwebiadau yn ôl. Fodd bynnag, ni newidiwyd yr amser cau ar gyfer tynnu enwebiad yn ôl gan y Ddeddf, ac felly mae'r amser hwn yn parhau i fod yn 4pm. Mae'r Gorchymyn yn symud yr amser cau ar gyfer derbyn enwebiadau yn ôl i 4pm ar y pedwerydd diwrnod ar bymtheg cyn diwrnod y bleidlais er mwyn cysoni'r amseroedd ar gyfer derbyn enwebiadau a'u tynnu yn ôl.

<u>"Ffurflen Cyfeiriad Cartref" ragnodedig ar gyfer etholiadau'r Senedd</u>

Mae Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 wedi mewnosod y ffurflen cyfeiriad cartref yng Ngorchymyn 2007. Mae'r ffurflen yn caniatáu i ymgeiswyr ofyn i'w cyfeiriad cartref beidio â chael ei wneud yn gyhoeddus yn y papurau enwebu. Mae'r ffurflen yn gofyn i ymgeisydd fewnosod enw etholaeth Senedd Cymru y mae'r ymgeisydd yn byw ynddi.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud diwygiadau i alluogi unrhyw ymgeisydd sy'n byw y tu allan i Gymru ond o fewn y DU i gyfeirio at enw etholaeth Senedd y DU y mae'n byw ynddi ar y ffurflen cyfeiriad cartref. Mae darpariaeth ar wahân eisoes wedi'i gwneud ar y ffurflen ar gyfer ymgeiswyr sy'n byw y tu allan i'r DU.

## Gweithdrefn
Gwneud Cadarnhaol

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd.

Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Gorchymyn o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd (i) wedi’i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’i gwnaed er mwyn iddo barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Mae'r Gorchymyn yn diwygio’r ffurflen cyfeiriad cartref, sy’n caniatáu i ymgeiswyr ofyn i'w cyfeiriad cartref beidio â chael ei wneud yn gyhoeddus yn y papurau enwebu. Pan ddefnyddir y mecanwaith hwn, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu enw etholaeth y Senedd y mae'n byw ynddi. Mae'r diwygiadau a wneir gan y Gorchymyn yn caniatáu i ymgeiswyr sy'n byw y tu allan i Gymru ond o fewn y DU ddarparu enw etholaeth Senedd y DU y maent yn byw ynddi. Mae'r diwygiad hwn yn gymwys i etholiad Senedd 2021 yn unig, ond mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd angen ei ymgorffori mewn Gorchymyn diwygiedig neu newydd ar gyfer etholiadau dilynol y Senedd.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

O ran y broses ymgynghori, mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud:

> *“Ymgynghorwyd â'r Comisiwn Etholiadol drwy gydol y broses o lunio Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2021. Mae hyn yn unol ag Adran 7 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol cyn y gellir gwneud Gorchymyn o dan Adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.*
>
> *Ymateb y Comisiwn Etholiadol pan ymgynghorwyd ar y Gorchymyn drafft oedd eu bod yn fodlon â'r darpariaethau sy'n ymwneud ag amser cau derbyn enwebiadau a'r ffurflen cyfeiriad cartref.*
>
> *Mae'r newidiadau a gynhwyswyd yng Ngorchymyn 2021 hefyd wedi'u trafod gyda'r gymuned etholiadol, gan gynnwys gyda'r pum Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Cytunwyd â'r Swyddogion hynny i gynnwys y ddarpariaeth i symud yr amser ar gyfer cau derbyn enwebiadau yn ôl i 4:00pm ar y pedwerydd diwrnod ar bymtheg cyn diwrnod y bleidlais i gysoni'r amseroedd ar gyfer derbyn a thynnu enwebiadau yn ôl.*

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y broses ymgynghori wedi'i chynnal cyn i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud. Fodd bynnag, er bod y Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at drafodaethau gyda Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol, nodir y ffaith nad yw'n sôn am drafodaethau â Swyddogion Canlyniadau Etholaethol. Felly, gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau a gynhaliwyd unrhyw drafodaethau ganddi â Swyddogion Canlyniadau Etholaethol. Os felly, beth oedd canlyniadau'r trafodaethau hynny? Os na chynhaliwyd trafodaethau o'r fath, pam na chafodd hynny ei wneud?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol yn gyfrifol am gysylltu â'r swyddogion canlyniadau ar gyfer etholaethau'r Senedd yn eu rhanbarth er mwyn sicrhau dull cyson o weinyddu etholiad y Senedd ledled eu rhanbarth. Felly, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru â hwy ar y sail hon. Yn ogystal, mae un o'r Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol yng Nghadeirydd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru sydd â'r rôl o sicrhau gweinyddiaeth ac arferion etholiadol cyson ledled Cymru. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru hefyd â Changen Cymru Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, sy'n cynrychioli gweithwyr etholiadol proffesiynol ledled Cymru. Ystyriwyd y safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y trafodaethau hyn cyn i'r Gorchymyn gael ei wneud.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 22 Mawrth 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.